# tafod elái

Hydref 2020

Rhif 351

Pris £1


## Gwneud y gorau o’r Cyfyngiadau



Clwb Gwawr Crotesi Creigiau yn falch iawn i gael ail afael yng ngweithgareddau Clybiau Gwawr

Ar ôl dioddef y cloi lawr cyntaf dros misoedd y Gwanwyn roedd gobaith y byddai mwy o weithgareddau yn gallu cymryd lle. Ond mae’r cyfyngiadau pellach ym mis Medi wedi effeithio ar lawer o gynlluniau. Mae’n amlwg y bydd angen tipyn o ddyfeisgarwch ac awyr iach i gynnal cymdeithasau Cymraeg.

Longyfarchiadau arbennig i Merched y Wawr sydd wedi chwilio am bob ffordd posib i gadw’u haelodau yn brysur drwy weithgareddau ar-lein a rhai awyr agored. Hefyd mae’r Mentrau wedi bod yn cynnal gweithgareddau i blant ar-lein.

Mae dewis eang o wasanaethau o gapeli’r cylch wedi bod ar Facebook bob dydd Sul., ac mae’n braf gweld fod capeli yn ail-agor.

Bu llawer o baratoi er mwyn i ysgolion ail-gychwyn ar ôl y gwyliau gyda chyfrifoldebau ychwanegol ar yr athrawon i ddilyn canllawiau heriol.

Mae llu o gantorion y cylch yn colli cyfle i ymarfer ac mae’n siwr fod llawer o weithgareddau a charaeon eraill wedi eu colli dros dro.

Yr her fwyaf fydd sicrhau na fydd effaith parhaol ar y defnydd o’r iaith Gymraeg ac y byddwn yn cael ail-gydio yn ein bywydau cymdeithasol.

**£10**

**Mae’n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Ond ni fydd yn bosib i’n dosbarthwyr daro drws y tŷ i dderbyn eich taliad.**

**Gofynnwn i chi felly fynd i wefan TafodElai.cymru a thalu drwy’r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Byddwn yn parhau gyda’r rhestrau dosbarthu presennol gan obeithio y bydd rhagor yn fodlon talu i gefnogi’r papur bro.**

**Mae’r pris wedi codi i £1 y rhifyn oherwydd costau cynyddol. Y tro diwethaf i bris Tafod Elái godi oedd yn 2009.**

**Gallwch dderbyn Tafod Elái yn ddigidol, neu wedi ei argraffu drwy ein dosbarthwyr.**

## Gwarth Cenedlaethol

Disgrifiwyd bwriad Cyngor Rhondda Cynon Taf i apelio yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys yn achos Ysgolion Pontypridd fel gwarth cenedlaethol.

Yn hytrach na thrafod gyda rhieni a phreswylwyr am ddyfodol addysg Gymraeg mae’r Cyngor am geisio defnyddio grym cyfreithiol i orfodi eu cynlluniau.

Ein Plant Gyntaf #OC1!

Dywedodd Cathy Lisles, Cadeirydd grŵp Ein Plant Yn Gyntaf, “Rydym yn hynod siomedig fod y Cyngor wedi penderfynu apelio penderfyniad y Barnwr er eu bod yn cydnabod ar yr un llaw fod pryderon wedi eu codi gan ymgyrchwyr, disgyblion a thrigolion gydol y broses. Rydym yn cwestiynu ai dyma’r ffordd orau o wario arian cyhoeddus yn ystod y cyfnod dyrys ac anodd hwn i nifer ynghanol y pandemig a hefyd yn dilyn y llifogydd difrifol a welwyd mewn sawl ardal yn Rhondda Cynon Taf.

“Mae’r Cyngor yn parhau i ddangos amarch llwyr i’r effaith a gaiff y cynlluniau yma ar les y plant yn enwedig y rhai sy’n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

“Mae’r buddsoddiad ariannol i’w groesawu ond nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd addysg ym Mhontypridd yn gwella o ganlyniad i’r cynlluniau penodol yma. Rydym eisoes wedi cynnig rhai opsiynau i’r cyngor sy’n cynnwys edrych ar hen safle ysgol Tŷ Gwyn yng Nglyncoch. Dylai Addysg Gymraeg fod yn hygyrch i bawb yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.”

“Dylai pob plentyn gael y cyfle i dderbyn ei addysg o fewn ei gymuned lleol. Rydym yn benderfynol o barhau i frwydro i sicrhau cydraddoldeb addysgol i bob plentyn yn ein hardal a’r dyfodol gorau bosib iddyn nhw.”

tafod elái

*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn 29 Hydref 2020

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Colled enfawr**
Daeth y newyddion trist am farwolaeth Brian Davies, Heol Pantygored. Cymeriad hoffus a doniol, gyfranodd yn helaeth i fywyd yr ardal. Rydym yn meddwl am Enid a Kate a'r teulu. Bydd cyfle eto i dalu teyrnged iddo.

**'Cymru o'r Awyr!'**
Llongyfarchiadau mawr i Rob Light a chwmni Orchard am greu rhaglenni gwych a hynny yn ystod y clo mawr. Tipyn o weledigaeth - os colloch chi'r rhaglenni maent werth chwilio amdanynt. Rhaglenni hardd mewn gair a golygfa.

*'Wrth i'r byd arafu ac wrth i bawb etifeddu mwy o amser dechreuom feddwl am yr hyn sy'n bwysig i ni.*

*Gyda mwy o bobl yn pryderu ac yn gor feddwl, y syniad y tu ôl i '**Cymru o'r Awyr**' oedd i stopio, i feddwl ac i werthfawrogi holl straeon, golygfeydd a'r gerddoriaeth sydd gan ein gwlad anhygoel i'w cynnig.*

*Yr hyn a ysbrydolodd y gyfres pedair rhaglen oedd y cysyniad o daith o'r Gogledd i'r De sy'n adrodd hanes Cymru gyda throsleisiau gan unigolion adnabyddus Cymru a rheiny yn adrodd eu profiadau o'r cyfnod clo'. R.L.*

**Pen-blwydd Arbennig**
Dymuniadau gorau i Nia , ein gohebydd, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Hydref. Diolch hefyd iddi am sicrhau llif o newyddion o'r pentref.

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD 2021

Pleser yw cyhoeddi rhestr testunau gwaith cartref Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd!!
http://eisteddfodcaerdydd.cymru/

Ein beirniaid ar gyfer y cystadlaethau lleynddol yw Gruffudd Owen a Ceri Elen a Sioned Birchall yw'r beirniad ar gyfer y ffotograffiaeth. Mae'r cystadlaethau llenyddol yn cynnwys cystadleuaeth y Gadair. Ry'n ni'n hapus iawn i allu cyhoeddi hefyd mai dyddiad cau yr holl gystadlaethau yw 6pm 27 Tachwedd. Manylion a rheolau ar y wefan.

Yn anffodus fyddwn ni ddim yn gallu cynnal eisteddfod eleni fel y bwriadwyd, oherwydd y cyfyngiadau presennol, a'r rhai arfaethedig. Ry'n ni'n siomedig iawn, ond mae diogelwch pawb yn bwysig iawn i ni. Ry'n ni'n falch o allu cynnig y cystadlaethau gwaith cartref yma i chi. Bydd gyda ni wledd arbennig i chi ar beth fyddai wedi bod yn ddiwrnod yr Eisteddfod ar 23 Ionawr, felly nodwch y dyddiad!

**Talu £10**
**TafodElai.Cymru**

Dyma'r olygfa ym Methlehem, Gwaelod y Garth, wrth i oedfaon ail-gychwyn ym mis Medi gan ddilyn y canllawiau newydd gan gyfyngu ar nifer y gynulleidfa.



# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Clwb y Bont**
Mae'r Clwb yn aros i raglen deledu Prosiect Pum Mil ddod i gychwyn ffilmio'r gwaith adfer i'r adeilad ar ôl difrod y llifogydd.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Clwb ar Hydref 16eg. Mwy o fanylion i aelodau drwy e bost.

Os gwelwch yn dda gwnewch ymdrech i ymuno ar lein i glywed am ddatblygiadau diweddara'r Clwb, i holi cwestiynau neu i fynegi barn.

**Merched y Wawr**
Fe ddaeth nifer o aelodau'r gangen i ymuno mewn cyfarfod rhithiol i drafod rhaglen y flwyddyn. Maent yn gobeithio cwrdd yn yr awyr agored ym Mharc Ynysangharad am 2 o'r gloch bnawn Mercher, Medi 30ain am wâc a chlonc hirbell!!

Ym mis Tachwedd fe fydd Mike Ebbsworth yn cynnal gwers Pilates ar Zoom. Ymunwch â fe nos Iau, Tachwedd 12fed am 7.00yh

Cynhelir y Cwis Hwyl Cenedlaethol nos Wener, Tachwedd 13eg. Mwy o fanylion am sut i gymryd rhan yn y rhifyn nesaf.

**Achos i ddathlu**
Llongyfarchiadau i Mirain a'i gwr Matthew Sellick ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Mae Casi Haf yn wyres i Bethan ac Alun Williams, Heol Tyfica. Mae'n siŵr bod Glyndŵr Teifi, Caerdydd wrth ei fodd yn croesawu ei gyfnither!

Pob dymuniad da i Heledd Fychan, Hillside View sy wedi dathlu pen blwydd nodedig yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i David Davies, Trallwng sy'n dathlu pen -blwydd arbennig mis yma.

Cyfarchion i Siân a Mike Ebbsworth, Graigwen sy'n dathlu eu Priodas Berl ar Hydref 20fed.

**Clwb Llyfrau**
Unwaith eto mis yma mae criw'r Clwb Llyfrau yn cwrdd drwy gyfrwng Zoom bnawn Llun Hydref 5ed am 3.00 p.m. Beth am ymuno â ni i drafod y cyfrolau rydych wedi'u darllen yn ddiweddar?

**Cardiau Cyfarch**
Ers i Siop y Bont gau mae hi wedi bod yn anodd prynu cardiau cyfarch Cymraeg o bob math ym Mhontypridd.

Mae modd cael gafael ar rai yn Yr Hen Lyfrgell yn y Porth. Erbyn hyn mae siop Sugar a Spice yn y farchnad yn cadw ychydig a gobeithio pan fydd siop Kookai Madam yn ailagor yn ei safle newydd ar Stryd Taf fydd cyflenwad yno hefyd.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Cydymdeimlo**
Syfrdanwyd y pentref gan y newyddion trist am farwolaeth annhymig Matthew neu "Matty" John ddiwedd Awst. Cydymdeimlwn â'i deulu - Lyndsey a'r plant ifanc George a Mia ac â'i fam Penny John. Ar ddiwrnod yr angladd yn amlosgfa Glyntaf, oherwydd y cyfyngiadau presennol, cafwyd cyfle i dalu teyrnged iddo yng Nghlwb Rygbi Pentyrch. Cyfeiriodd Huw Llywelyn Davies ato fel gŵr ifanc hynod boblogaidd a wnaeth gyfraniad arbennig i'r clwb fel cyn gapten, chwaraewr ac hyfforddwr.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu bach.

**Gwellhad Buan**
Danfonwn ein dymuniadau gorau i Mel Davies, Penywaun sy'n gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Merched y Wawr**
Llongyfarchiadau i Gill Griffiths wedi iddi gael ei hethol yn Is-gadeirydd y Rhanbarth a dymunwn yn dda i Gill yn y swydd.

**Diolch yn fawr**
Hoffai Carol (Penri) ddiolch o galon i bawb sydd wedi dymuno'n dda iddi yn dilyn ei salwch diweddar.

**Rokman ar y Garth**
I'r mwyafrif, tro gweddol hamddenol yw'r bwriad wrth sôn am fynd i ddringo'r Garth. Nid dyna oedd bwriad Max Glover. Ar ddechrau mis Medi cyflawnodd yr athletwr Rokman y gamp anhygoel o gario piano 400 pwys i ben y Garth a hynny mewn 3awr 45munud. Gwnaeth hyn er mwyn codi arian i gefnogi elusen trawsblannu calon ac ysgyfaint Ysbyty Brenhinol Brompton a Harefield lle roedd ffrind iddo wedi derbyn triniaeth.

Mae modd cyfrannu i'r elusen ar https://justgiving.comfundraising/pianocarry



Max Glover sy'n cynorthwyo yng nghampfa'r Vale.





# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Croeso**
Estynnwn groeso i'r pentref i deulu bach arall o Gymry. Mae Huw, Janet a Ffion Caffrey ar fin symud i'w cartref newydd yn Ffordd y Capel. Croeso cynnes i chi eich tri.

**Côr yr Einion**
Cyfarchion i'm cyd-aelodau yng Nghôr yr Einion. Mae wedi bod yn amser hir ers i ni gael cyfarfod i ymarfer. Rwy'n siŵr y byddwch wrth eich boddau i glywed fod Siân, ein harweinyddes yn fam-gu erbyn hyn. Llongyfarchiadau i Iwan a Gemma ar enedigaeth merch fach ar Fedi 14eg. Mae Siân wedi dwlu ar yr wyres fach, Ela Lowri Wasana Griffiths.

**Cefnogi Elusen Alzheimer**
Fe gerddodd Siôn, mab Cliff ac Eifiona Hewitt, Penywaun, rhyw bymtheg milltir o Aberhonddu i Ben y Fan i godi arian at elusen Alzheimer's, er cof am ei Nain a ddioddefodd o'r dolur. Mae wedi derbyn dros £900 o arian nawdd yn barod ac mae'r arian yn dal i ddod i mewn. Dymuna Siôn, Eifiona a Cliff ddiolch o galon i bawb yn yr ardal a gyfrannodd mor hael at achos sydd yn cyffwrdd ag amryw o deuluoedd y dyddiau hyn.

**"Fi Mewn Tri"**
Braf oedd gweld Bethan Emanuel, Heol y Parc ar raglen "Prynhawn Da" yn ystod y mis yn sôn am y tri pheth sydd yn bwysig iddi. Yr eitem gyntaf ddangosodd Bethan i'r gwylwyr oedd ei hesgidiau rhedeg. Mae wrth ei bodd yn cael mynd mas i'r awyr iach i redeg yn enwedig yn ystod y cyfnod clo yma. Yng ngeiriau Bethan mae'n "foddion i'r meddwl". Mae'n gobeithio y bydd aelodau Clwb Rhedeg y Pentref yn gallu cyflawni'r hanner marathon ym mis Tachwedd, gan redeg o'r pentref lawr i Gastell Caerdydd.

Ail eitem Bethan oedd fest redeg "Wish Upon a Star". Mae Bethan yn ymddiriedolwr yr elusen a ffurfiwyd gan ffrind iddi, Rhian Mannings, ar ôl iddi golli ei mab yn sydyn ac yntau ddim ond yn flwydd oed, a cholli ei gŵr i hunanladdiad ymhen pum niwrnod. Sail yr elusen yw rhoi cefnogaeth i deuluoedd sydd yn



dioddef o brofiadau tebyg. Mae Bethan eisoes wedi rhedeg sawl hanner marathon i gefnogi'r elusen.

Cyfres o luniau o Bortmeirion oedd dewis olaf Bethan. Er mai yn Yr Wyddgrug y magwyd hi mae ei theulu yn hanu o ardal Penrhyndeudraeth ac mi roedd ei thaid yn gweithio ym Mhortmeirion. Mae Rob a Bethan a'r bechgyn Ioan a Steffan, wrth eu boddau yn trefnu gwyliau yn aml i Bortmeirion.

**Côr Godre'r Garth**
Llongyfarachiadau i Steffan Watkins, arweinydd y côr, a Ffion Lanchbury ar enedigaeth Casi Lena yn 9pwys ym mis Medi. Mae ganddi lais Alto cryf!

**Y TABERNACL**
**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Sioned a Vas ar enedigaeth merch fach Niki Emiliana. Chwaer fach i Efan a Ffion, ac aelod fach newydd i'r Ysgol Sul yn Y Tabernacl. Mae Taid a Mam-gu, Pens a Siân, wrth eu boddau gyda'i hwyres fach newydd.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Dr Jenny Thomas a Huw Roberts a'r teulu yn Y Creigiau ar golli mam Jenny'n ddiweddar.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn adferiad iechyd buan a llwyr i Ann Rees sydd yn treulio cyfnod yn yr Ysbyty ym Merthyr Tudful. Fe dreuliodd Carol Williams gyfnod yn yr ysbyty hefyd. Dymuniadau gorau i chi eich dwy a brysiwch wella.

**Rheolwr Safle**
Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi bod yn hysbysebu am Reolwr Safle, i olynu Ioan Rees, am rai wythnosau bellach a heb dderbyn unrhyw ymateb cyn belled. Yn ffodus mae Mike West wedi gwirfoddoli i lenwi'r bwlch am gyfnod o dri mis, a hynny'n ddi-dâl gan roi rhagor o amser i wneud penodiad mwy parhaol.

Mae Mike yn un o'r pedwarawd sydd yn cyfarfod pob bore Iau i gadw trefn ar yr adeiladau, y fynwent a'r maes parcio. Dyw'r fynwent erioed wedi edrych mor daclus. Mae'r aelodau'n gwerthfawrogi'n fawr y gwaith y mae John Llew, Edwyn, Pens a Mike yn ei wneud.




**Canfod Crair Annisgwyl**
Cafwyd cais annisgwyl gan berson o'r enw Gareth Williams i ymuno â thudalen "Facebook" Y Tabernacl yn ystod y cyfnod clo. Pan holwyd y gŵr pam oedd yn awyddus i ymaelodi â'r dudalen syndod pleserus oedd derbyn y llun yma fel esboniad. Llun ydyw o gas sbectol arian wedi ei argraffu'n gywrain a gyflwynwyd i'r Parchedig John Taihirion Davies ym mis Medi 1901 ar achlysur dathlu'r ffaith iddo gyrraedd carreg filltir bwysig o gwblhau hanner can mlynedd fel gweinidog Y Tabernacl. Mae'n dda gweld bod y cas wedi derbyn pob gofal dros gyfnod o 119 o flynyddoedd.



Roedd y capel yn llawn ar gyfer y cyfarfod anrhydeddu gyda dros pedwar deg o weinidogion a lleygwyr yr ardal yn bresennol. Cyflwynwyd y cas sbectol gan Mrs Morgans (Ystradferwigisaf) un o aelodau hynaf y capel.

Dyma rhan o deyrnged yn y Faner - "Mr Davies yw esgob y Fro, y mae ganddo hanner can mlynedd o fywyd Bro Morgannwg yn wleidyddol, cymdeithasol a chrefyddol. Dyn cryf ymhob ystyr yw Mr Davies, a theimlir ei nerth lle bynnag y byddo."

Mae rhai aelodau hynaf Y Tabernacl yn cofio merch John Taihirion Davies yn mynychu'r Oedfaon ar y Sul yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Tybed ai mab Mrs Nan Williams, 2 Station Road, yw'r Gareth Williams a gysylltodd â Gwilym Huws?

# Ysgol Creigiau

**Ymgartrefu yn yr Ysgol**
Rydym yn falch iawn o bob un o'n disgyblion am ymgartrefu yn ôl i 'fywyd ysgol' mor gyflym a di-drafferth. Mae'r plant i gyd wedi bod yn wych ers dechrau'r tymor. Diolch hefyd i'n rhieni, gofalwyr a theuluoedd am eu holl gefnogaeth a'u cydweithrediad.

**Gweithgareddau Chwaraeon**
Oherwydd sefyllfa COVID-19 nid oeddem wedi gallu cynnal ein Diwrnod Mabolgampau ym mis Mehefin eleni. Felly yn ystod yr wythnos 21ain Medi fe drefnodd y staff Weithgareddau Chwaraeon Noddedig ar gyfer pob dosbarth ar iard ac ar gae'r ysgol. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl gyda'u ffrindiau yn rhedeg, sgipio, neidio, taflu a llawer mwy. Mae Cyfeillion Ysgol Creigiau wedi creu tudalen 'Just Giving' er mwyn i rieni a theuluoedd noddi eu plentyn/plant wrth iddynt fwynhau'r gweithgareddau amrywiol. Mae'r Cyfeillion yn awyddus i godi £8000 i ymestyn y llwybr antur ar gae'r ysgol. Diolch o galon i'n teuluoedd am eu cyfraniadau hael.

**Rhaglen Peiriannydd Cynradd**
Ym mis Mawrth cymerodd disgyblion Class 5 (Class 6 bellach) ran mewn cystadleuaeth STEM cenedlaethol 'Pe byddech yn Beiriannydd beth fyddech chi'n ei wneud?' Mae'n gystadleuaeth wedi'i seilio ar gwricwlwm sy'n helpu i adeiladu sgiliau llythrennedd a dylunio a thechnoleg. Cafodd y disgyblion y dasg o nodi problem, dylunio datrysiad iddi ac ysgrifennu llythyr yn egluro pam y dylai peirianwyr ei hadeiladu. Yn ddiweddar clywsom fod pob un o ddisgyblion Class 6 wedi derbyn naill ai pas neu deilyngdod. Dywedodd beirniaid y Rhaglen Peiriannydd Cynradd fod y gwaith a dderbynion nhw yn eithriadol, ac roeddent wedi mwynhau clywed am y syniadau cyffrous yr oedd y plant wedi eu cynnig! Dyfarnwyd rhagoriaeth i dri disgybl, Osian, Seren ac Alex, ac mae eu dyluniadau ar y rhestr fer. Bydd Peirianwyr Cynradd yn rhoi gwybod i'r ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf sut y byddant yn cynnal yr arddangosfeydd i ddathlu gwaith y rhai sydd ar y rhestr fer, yn ogystal â chyhoeddi'r enillwyr lwcus. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i glywed ganddynt! Da iawn Class 6 - gwaith arbennig!



Diwrnod Chwaraeon Dosbarth 3



Diwrnod Chwaraeon Dosbarth 2



Diwrnod Mabolgampau Class 6



Diwrnod Chwaraeon Dosbarth 6

**Cynllun Strydoedd Ysgol**
Diolch yn fawr i'n teuluoedd am eu cydweithrediad ynglŷn â pheidio â gyrru/parcio yng Nghwrt Tregarth – mae'n gwneud cymaint o wahaniaeth wrth i'r disgyblion gyrraedd a gadael safle'r ysgol.

Bydd camerâu yn cael eu gosod wrth y fynedfa i Gwrt Tregarth yn ystod yr wythnosau nesaf. Ni chaniateir i gerbydau modur yrru yn y 'Stryd Ysgol' (Cwrt Tregarth) yn ystod yr oriau a nodir ar yr arwyddion. Mae pob 'Stryd Ysgol' yng Nghaerdydd yn weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30yb - 9.30yb a 3yp - 4yp, ac eithrio yn ystod mis Awst ac yn ystod amseroedd a nodir pan fo'r ysgolion ar gau. Caiff y dyddiadau hyn eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Caerdydd.



Camera Newydd yng Nghreigiau

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis:
Siân Llewelyn Barnes

**Wish Upon a Star**
Er gwaethaf cyfuniadau Coronafeirws, mae nifer o ddigwyddiadau codi arian yn parhau gan yr elusen a gafodd ei sefydlu yn lleol i roi cymorth i rieni mewn profedigaeth. Ar Fedi 6ed cynhaliwyd ras 10k, gydag unigolion yn cynllunio eu taith ar system Strava a thrwy fis Medi bu nifer yn cymryd rhan yn y Rideathon, eto drwy gyfryngau digidol.

**Timau Lleol yn ailgydio**
Braf yw gweld timau chwaraeon lleol, yn cynnwys timau oedolion a phlant Clwb Rygbi Llantrisant a Chlwb Pêl-droed Pontyclun, nawr wedi ailgydio yn y sesiynau hyfforddi. Gobaith y timau pêl-droed i oedrannau ifanc, yw ail ddechrau gemau cyn bo hir, ond bydd rhaid aros i weld. Yn naturiol mae pawb wrthi yn dod i arfer gyda'r rheolau newydd.

**Cofiant Athletwr Enwog**
Ymhen y mis bydd cofiant yr athletwr Darren Cambell yn cael ei gyhoeddi, "Track Record". Awdur y llyfr yw Trystan Bevan, Meisgyn. Dyma'r gyfrol gyntaf iddo ei hysgrifennu. Roedd Darren Cambell yn aelod o dîm cyfnewid Prydain enillodd y Fedal Aur yng Ngemau Olympaidd Athen, 2004. Bu Trystan a Darren yn cydweithio gyda chlwb rygbi Wasps tan yn ddiweddar.

**Nofio Gwyllt**
Hyfryd oedd gweld Rhian Arwel, Southgate, yn siarad ar raglen Newyddion S4C am ei diddordeb mewn nofio yn yr awyr agored. Mae Rhian yn mwynhau ymweld â gwahanol leoliadau ar yr arfordir, afonydd a llynnoedd, gyda chriw â'r un diddordeb. Yn ystod yr eitem bu'n pwysleisio'r modd o gadw'n ddiogel.

**Merched y Wawr Tonysguboriau**
Braf oedd cael cwrdd am y tro cyntaf ers mis Chwefror a chael paned, cacen a chlonc yng nghaffi Piglets. Cafwyd cyfle i siopa yn siop sero-gwastraff Truffles hefyd. Dosbarthwyd dau rifyn o'r Wawr ac felly mae digon o ddeunydd darllen i gadw pawb yn hapus am sbel. Gan fod y lleoliad yn plesio byddant yn cwrdd yno eto ym mis Hydref a bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau trwy e-bost i aelodau wedi i'r cyfnod clô diweddaraf ddod i ben. Cyn hynny bydd cyfle i aelodau Merched y Wawr y rhanbarth fwynhau noson ar Zoom gyda Mererid Hopwood ar Hydref 24ain ac fe fydd noson Shwmae yn dilyn ar Dachwedd 15fed.



Merched y Wawr Tonysguboriau

**Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r ardal**
Er nad oes Bore Coffi Mawr Macmillan eleni, nid yw hynny wedi atal aelodau o Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch rhag mynd ati i godi arian yn ystod mis Medi. Mae sawl bore coffi cadw pellter cymdeithasol wedi cael eu cynnal mewn gerddi ac mae Yvonne ac Eluned wedi rholio eu llewys i fyny gan fynd ati i bobi. Mae Yvonne wedi gwneud cacen (ac weithiau mwy nag un) bob dydd o'r mis gyda'i hymgrych 'Super Sponge September'. Bu Eluned yn cynnig amrywiaeth o eitemau ar y thema Hydref. Doedd dim prinder cwsmeriaid ac mae'r ddwy wedi defnyddio sawl cilo o flawd a dwsinau o wyau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Wyres fach newydd**
Llongyfarchiadau i Eleri a Gwilym Huws, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Gartref yn Ffynnon Taf fore Iau 24 Medi, ganed Lyra, merch i Rhodri ac Emily, a chwaer fach i Aria, Elis ac Osian, a Jasmine ac Elijah. Pob dymuniad da i'r teulu.















Cacennau di-ri ar gyfer boreau-coffi yn yr ardd.

## Herio Mynyddoedd











Geraint Rees fu’n tywys Nia, Gerallt a Hannah i ben Mynydd y Garth ar ddiwrnod gwael ym mis Awst ar raglen ’Mynd am Dro’ ar S4C. Yna aeth y criw ymlaen i gerdded yn Nhrimsaran, Bethesda, a Llanelltyd. A gyda’r tywydd yn gwella roedd Hannah wedi cyfaddef fod y golygfeydd lot yn well yn y gogs nac yn y de.



## Cyhoeddi Llyfr Digidol Rwdlan




Mae’r awdures Angharad Tomos yn cyhoeddi llyfr newydd yng Nghyfres Rwdlan, sef Pawennau Mursen (Y Lolfa). Cyflwynwyd y llyfr yn ddigidol yn wreiddiol, ar ddechrau’r cyfnod clo adeg y coronafeirws, ar Ddiwrnod Rhyngwladol Llyfrau Plant (2 Ebrill). Ond bellach mae’r Lolfa wedi penderfynu cyhoeddi llyfr print o Pawennau Mursen – y cyntaf yn y gyfres i gael ei gyhoeddi ers wyth mlynedd. Meddai Angharad Tomos, “Fel pawb arall, wyddwn i ddim beth i’w wneud yn ystod y dyddiau cynnar, yn methu mynd i unman, a ddim yn gallu helpu. Dywedodd fy nheulu, ‘Gwna be wyt ti’n gallu ei wneud – sgwenna lyfr Rwdlan’. A dyna beth wnes. Fy ngŵr ddaeth o hyd i raglen Issuu, a bod modd cyhoeddi’r stori i’w rhannu’n ddigidol. Hogan pensel a phapur ydw i, ond dwi wedi dysgu sawl tric digidol yn ystod y cyfnod clo.”

Mae Pawennau Mursen yn stori amserol, sy’n gweld Rwdlan a’r Dewin Dwl yn cael eu haddysgu yn y cartref gan Ceridwen, ond mae’r ddau fach wedi diflasu ac yn penderfynu chwarae tric arni. Maen nhw’n clymu balŵn i drwyn Ceridwen ac yn peintio’r bwrdd yn felyn llachar. Ac mae ôl pawennau Mursen dros y stafell ac ar gôl Ceridwen. Mae’r stori yn llawn hiwmor a bydd plant yn medru uniaethu â’r cymeriadau yn y cyfnod anodd yma.

Ar gychwyn y llyfr, mae Angharad Tomos yn nodi bod y llyfr yma ‘I blant Ysgol Maesincla, Caernarfon’. Meddai Angharad, “Dwi wedi ymweld ag Ysgol Maesincla fwy nag unwaith yn siarad am Rwdlan, ac mae’n ysgol arbennig. Wedi dilyn ei hanes ar S4C – cyn ac yn ystod Covid – nes i feddwl y carwn gyflwyno’r llyfr iddynt hwy.”

Cyhoeddwyd y cyntaf yn y gyfres, sef Rala Rwdins, ddiwedd 1983. Ers hynny, mae 16 stori arall wedi cael eu cyhoeddi, gyda ’Sbector Sbectol yr un diweddaraf yn 2012.









# Curo’r Corona’n Coginio

**Eluned Davies-Scott**

**Curo’r Corona’n Coginio.**
Mae’r dethol a dewis drosodd a’r canlyniadau mewn print gyda llyfr coginio Merched Y Wawr ar gael yn y siopau ac o’r swyddfa yn Aberystwyth.

Rhaid llongyfarch pawb sydd wedi cyfrannu i’r dudalen Gweplyfr ac i’r rhai sydd wedi bod wrthi yn rhoi’r llyfr coginio at ei gilydd. Mae yna ddigon o amrywiaeth ynddo gyda rhywbeth i blesio pawb, ac fel pob llyfr coginio da, mae digon o luniau hefyd.

Mae pawb sy’n hoffi coginio yn barod iawn i rannu eu rysetiau gydag eraill ac mae fforwm ‘Curo’r Corona’n Coginio’ wedi rhoi cyfle i wneud hyn. Gyda dros 16,000 o aelodau mae’r fenter wedi rhoi’r cyfle i greu cymuned gyfeillgar rithiol dros Gymru gyfan a thu hwnt. Mae nifer o’r cyfranwyr wedi dod o hyd i ffrindiau newydd ac fe allwch ddarllen erthygl ar ‘Cymru’n Fyw’ ac ar dudalen Gweplyfr Merched Y Wawr am enghraifft arbennig o hyn. Mae dwy aelod o’r mudiad, un o Fethesda a’r llall o Gaerfyrddin, wedi cwrdd ar y we gyda’u cyfeillgarwch wedi eu helpu yn ystod y cyfnod clo trwy roi cyfle iddynt rannu eu profiadau o guro canser.

Rhannu rysáit mae Dr Elin Jones yn wneud hefyd yn y rhifyn diweddaraf o’r Wawr gan fynd ati i bobi Teisen Lap o hen lyfr coginio oedd gan ei mam. Gwelai Dr Elin ôl defnydd ar y llyfr ac mae llawer ohonom yn gwybod fod rysáit yn un poblogaidd a llwyddiannus trwy weld ôl bysedd ar y dudalen.

Yn ddiweddar bûm yn darllen, a mwynhau, nofel “Blasu’ gan Manon Steffan Ros. Mae’r stori yn defnyddio rysetiau yn effeithiol iawn i gyfleu sut mae bwyd yn gallu cyfrannu at ing, temtasiwn a chysur; rwy'n siŵr y gall llawer ohonoch sydd wedi darllen y nofel ddeall y dylanwad mae bwyd yn ei gael ar ein teimladau. Tybed ydi’r pobi sy’n cael ei wneud a’r rhannu rysetiau yn ystod y cyfnod cyfredol hwn yn rhyw fath o therapi ac yn ffordd o drio delio gyda phryder ac ansicrwydd? Yn sicr dwi’n cael pleser o fod yn y gegin yn trio rysetiau newydd ac mae pobi ar gyfer elusen Macmillan wedi rhoi cyfle i mi ddod i ‘nabod mwy o’m cymdogion.

Wrth edrych trwy fy ystod enfawr o lyfrau sy’n ymwneud â bwyd des i ar draws y llyfr ryseitiau roedd fy mam yn ei ddefnyddio ar gyfer ysgrifennu ei hoff ryseitiau ac, ie, roedd wedi'i staenio gyda phrintiau o’i bysedd. Dwi am rannu un o’i ffefrynnau gyda chi-

**Torth Caribïaidd.**



Torri **250g afal pîn tun** yn ddarnau. Curo **125g o fargarîn** a **125g siwgr brown** meddal gyda'i gilydd yna ychwanegu **2 wy** (wedi eu curo) ychydig ar y tro. Cymysgu i mewn ¾ o’r afal pîn, **125g o resins neu syltanas** a **4 llwy fwrdd o laeth**. Gyda llwy fetel cymysgu **300g blawd codi** i’r cymysgedd. Rhoi’r cyfan mewn tun pobi wedi ei leinio gyda phapur pobi, rhoi gweddill yr afal pîn ar yr wyneb a haenen denau o siwgr Demerara. Coginio am 1½-1¾ awr. Gadael iddo oeri ychydig yn y tun cyn ei droi allan. (nodwch nad oes tymheredd na mesuriadau ar gyfer y tun pobi yn y rysáit ond dwi’n awgrymu tun torth fara a gwres ffwrn o tua 150ºC Nwy 4)




# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*



**Er cof am Miss Mair Thomas 1 Wood Street**
Yn dawel yn ei chwsg ar 15 Medi bu farw Mair yn ei chartref 95 ac 8 mis oed. Athrawes oedd Mair ac yn adnabyddus yn ei swydd fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Y Pant. Fe oedd ganddi ffordd unigryw iawn gyda’r disgyblion ac mae sawl un ohonynt wedi cadw cyswllt â hi ar hyd y blynyddoedd ers gorffen ysgol. Roedd Mair yn aelod ffyddlon o Gapel Y Bedyddwyr Moreia Hendreforgan. Mynnodd Mair fod y capel yn cynnal gwasanaeth arbennig ar gyfer y 90 mlwyddiant. Ei geiriau hi oedd “Duw a ŵyr faint ohonom ni fydd yma i ddathlu’r can mlwyddiant”. Bydd Moreia yn 100 mlwydd oed mis Hydref 2021. Roedd Mair wastad yn gwybod beth oedd orau. Bu Mair yn gefnogwr brwdfrydig parti Blaid Lafur y pentref. Ei thad oedd y Cynghorydd John Haydn Thomas a wnaeth gymaint dros addysg Gymraeg yn y 60 a 70au. Rhaid talu teyrnged i Maria, cymydog Mair, a fu’n ffrind da a help llaw iddi ers rhai blynyddoedd. Cydymdeimlwn gyda Kathleen, chwaer yng nghyfraith, David ei nai a Caroline ei nith.

**Dawns a Thechnoleg**
Llongyfarchiadau i Esmay Walters, Llewellyns View a’i phartner Isabelle Blowers o Donteg. Bu Esmay ac Isabelle yn cystadlu yn y gystadleuaeth byd enwog yn Blackpool. Bu’r ddwy yn cystadlu yn y categori dawns Lladin ond wrth gwrs nid yn Blackpool oedden nhw ond yn eu stiwdio dawns Dance Crazy yn Nhonteg ac yn cael eu recordio. Trydydd safle iddynt ac yn curo cystadleuwyr o Tsieina a’r Amerig.

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

Bydd oedfaon mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2020 fel a ganlyn yn y capel (oni nodir yn wahanol), i ddechrau am 10:30 a.m.
(SYLWER: Ni fydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn y capel am y tro, ond yn hytrach gyda chefnogaeth barod y rhieni a'r hyfforddwyr, bydd cyfarfodydd rheolaidd rhithiol yn cael eu trefnu bob Sul.)

**Mis Hydref:**

4 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
11 – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul (NODER: Rhithiol yn unig)
18 – Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
25 - Oedfa Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen

**Mis Tachwedd:**

1 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn

----------ooo000ooo----------

Wrth i mi ysgrifennu'r pwt yma o gyfraniad ar gyfer y rhifyn cyfredol o "Tafod Elai", gwaethygu mae'r pryder am ddyfodiad ail don y Coronafeirws, a chyfyngiadau o'r herwydd ar chwarter poblogaeth Cymru erbyn hyn, gan gynnwys peth o ddalgylch ein papur bro. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa wedi dwysau hyd yn oed yn fwy erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r "Tafod"!

Ond, er dwyster y sefyllfa honno, nid corddi yng nghysgod y feirws ydi'r bwriad serch hynny, ond rhannu cynnwys dwy erthygl ddiweddar a ddigwyddais daro arnynt - erthyglau sy'n sobri, tristau a chreu llawenydd ar yr un pryd o'u darllen ochr yn ochr.

Mi ddylai'r gyntaf (Adroddiad gan Oxfam a Sefydliad Amgylcheddol Stockholm) ein hysgwyd hyd at ein sodlau, gan ei bod yn trafod effaith allyriadau carbon deuocsid ar draws ein byd.

Yn ystod y cyfnod 1990 hyd 2015, wyddech chi fod yr 1% mwyaf cyfoethog o boblogaeth y byd yn gyfrifol am allyriant sydd ddwywaith yn fwy na'r allyriant gan hanner poblogaeth dlotaf y cyfandiroedd?

Ac yn ystod yr un cyfnod o 25 mlynedd, tra bu 60% o gynnydd byd-eang yn allyriant carbon deuocsid, 'roedd yr 1% cyfoethocaf yn gyfrifol am gynnydd dair gwaith yn fwy na'r hanner tlotaf

Gorddefnydd rhemp y cyfoethog o adnoddau naturiol ein planed, a'u meddwdod llwyr ar drafnidiaeth garbon-ddwys sydd i'w gyfrif am y dihysbyddu yma ar y "gyllideb carbon".

Canoli allyriant carbon yn nwylo, ac er pleser, y cyfoethog, ar draul y tlawd, a dynoliaeth yn gyffredinol - arfer sydd yn ôl Oxfam, yn gwbl annheg, o gofio bod cyfran uchel o boblogaeth y byd yn gorfod byw 'n dyddiol heb y cyfleusterau mwyaf sylfaenol yr ydym ni mor gyfarwydd â hwy.

Mae'n amser tyngedfennol, yn ôl yr Adroddiad, gyda'r allyriadau yn achosi cynhesu byd-eang; ac ar y sail y gall y cynnydd presennol ychwanegu 1.5 C at dymheredd ein planed, yna ychydig dros 10 mlynedd sydd ar ol cyn i ni wario'n "cyllideb garbon" i gyd.

Petai gweddill y byd yn torri eu hallyriadau i ddim yn unionsyth, heb newid agwedd ymysg y 10% mwyaf cyfoethog, fe gollir y frwydr honno.

Ac yn y dadansoddiad byd-eang yma, rhag ofn i chi feddwl nad oes gan hyn ddim byd i wneud hefo ni, nodwch fod y 10% cyfoethocaf yn cynnwys unrhyw un sydd ag incwm o fwy na £27 000 ($35 000)! [$100 000 yw'r swm cyfatebol i'ch cynnwys yn yr 1% cyfoethocaf!]

Erthygl yn sôn am Wal Fawr Werdd yr Affrig oedd y llall a ddaeth i'm sylw, cynllun a lansiwyd yn 2007, a'r bwriad i dyfu, yn hytrach nag adeiladu (*a la Trump*), mur o goed dros bellter o 8 000 cilomedr (5 000 milltir) ar draws y cyfandir.

Fe'i lleolir yn ardal y Sahel, ar rimyn deheuol anialwch y Sahara, un o ardaloedd tlotaf y byd, a bydd yn ymestyn o Senegal, yn y gorllewin, hyd at Djibouti yn y Dwyrain..

Pan fydd yn gyflawn dyma fydd yr adeiladwaith byw mwyaf yn y byd, a bydd yn dair gwaith maint y "Barriff Mawr" yn Awstralia.

Yn ôl yr erthygl, wedi degawd o waith, mae tua 15% o'r cynllun eisoes wedi ei gwblhau, gan roi hwb sylweddol i dirlun oedd yn prysur droi'n ddiffaethwch, a rhoi sicrwydd bwyd, swydd a bywoliaeth i filiynau o'r boblogaeth sydd ar ei lwybr.

A thrwy ddarparu ar eu cyfer eu hunain, byddai'r cynllun yn ogystal yn batrwm ar gyfer ardaloedd byd-eang sydd yn dioddef yn yr un modd yn sgil newid hinsawdd, sychder, newyn, gwrthdaro ac ymfudo.

Byddai'n symbol o ddynoliaeth, mewn cytgord llwyr â natur, yn goresgyn dirywiad yn ei hamgylchedd, yn y llefydd mwyaf anhygyrch ac anffafriol, gan adeiladu gwell byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dyma gynllun sy'n cyfrannu'n helaeth tuag at nod y Cenhedloedd Unedig o greu byd sy'n decach ac yn fwy cynaliadwy erbyn 2030.

A chan mai plannu coed a phlanhigion eraill ydi hanfod y cynllun, mae'n briodol, yn ôl yr erthygl, gweld "tyfu" ymhob ffordd posibl fel nod ehangach,:-

Nid yn unig,

- Tyfu rhyfeddod byd newydd ar draws cyfandir cyfan

Ond hefyd,

- Tyfu tir ffrwythlon, un o asedau naturiol gwerthfawrocaf dynoliaeth
- Tyfu mur o obaith yn erbyn tlodi
- Tyfu bwyd ar gyfer y miliynau sy'n llwgu'n ddyddiol
- Tyfu gofal iechyd ar gyfer y tlotaf yn y byd
- Tyfu diogelwch dŵr
- Tyfu cydraddoldeb rhwng merched a dynion
- Tyfu ynni cynaliadwy er sicrhau dyfodol llewyrchus i'r cymunedau
- Tyfu swyddi gwyrdd gan sicrhau cyflog teg
- Tyfu cyfleoedd er hybu busnesau cynhenid
- Tyfu rheswm i aros yn eu cynefin
- Tyfu patrwm cynaliadwy er gwarchod eu tiriogaeth
- Tyfu hyder rhag newid hinsawdd
- Tyfu symbol o heddwch er gwarchod eu cymunedau

Dwy erthygl yn ein cywain i'r un man yn y diwedd, sef y galw, ar frys, i barchu'r "*cilcyn o ddaear*" y cawsom y fraint o'i benthyg o genhedlaeth i genhedlaeth, a bod angen i ni i gyd, pob copa walltog ohonom, wneud yr hyn y gallwn i'w hanwylo a'i gwarchod – cyn iddi fynd yn rhy hwyr!

Cawsom gyfle yn sgîl y "Clo Mawr" i newid peth ar ein harferion – yr her fydd peidio mynd yn ôl i'r un rhigol wedi i'r feirws gilio!

"*Gwrandwch ar hyn, chi'r bobloedd, clywch bawb drwy'r byd i gyd – pobl o bob cefndir yn gyfoethog ac yn dlawd.*" [Salm 49:1-2 (Beibl.net)]

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Rwy'n cael blas ar ddarllen llyfr newydd Gareth Ffowc Roberts - *Cyfri'n Cewri: Hanes Mawrion ein Mathemateeg.* Ysgrifennwyd y llyfr er cof am Llewellyn Gwyn Chambers (1924-2014), arloeswr hanes mathemategwyr Cymru. Gwasg Prifysgol Cymru yw cyhoeddwr y llyfr o 152 tudalen a Rhagair. Yn y Rhagair mae'r awdur yn nodi'r newid a fu yn niwylliant poblogaidd Cymru ers 1856 pan gyhoeddodd Evan James a'i' fab James ein hanthem genedlaethol ym Mhontypridd, '…. Roedd mynd mawr ar ddatblygiadau gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda chymdeithasau gwyddoniaeth leol yn codi fel madarch ar hyd a lled y wlad. Tybed a gollodd Evan James y cyfle i gydnabod hynny wrth lunio geiriau'r anthem?...Erbyn diwedd y ganrif roedd y dehongliad hwnnw wedi culhau i gynnwys ein barddoniaeth, ein cerddoriaeth, ein crefydd a fawr ddim arall?'

Ymgais yw'r llyfr hwn i gefnogi'r newid sydd yn digwydd i ddwyn y gwyddorau (gan gynnwys mathemateg) i gorlan diwylliant Cymru heddiw, yn y ddwy iaith.

Yn y pymtheg pennod ceir disgrifiadau o fywyd a gwaith, un-ar-ddeg o bersonau ac un symbol; mae tair pennod yn weddill, *I Gloi* (sylwadau Gareth), *Atebion i'r posau*, *Nodiadau ar y penodau.*

Y nodwedd sy'n arbennig trwy'r gyfrol yw'r modd apelgar y cyplysir agweddau bywyd y person dan sylw, gan gyfeirio at ardal fagwraeth a'r cyfraniad pynciol. Yn y modd hwn gellir cyfrif y gyfrol yn wir ddiwylliannol. Erbyn heddiw mae'r awdur yn adnabyddus am ei bosau sy'n ymddangos yn gyson ar wefan ac ar radio. Ceir un pos ym mhob pennod a'r atebion i gyd ym Mhennod 14.

Mae'r cyflwyniad yn llyfn gan roi hyder i bawb fwrw ati a chael mwynhad, heb boeni am allu mathemategol. Mae apêl lydan y gyfrol yn cael ei chadarnhau gan y tri sy'n cymeradwyo, Angharad Tomos (awdures), Tudur Owen (comedïwr), Elin Jones (hanesydd).

*****************

Rwy'n ddyledus i Arthur Evans am ddwyn fy sylw at farwolaeth ddiweddar (31 Gorffennaf 2020) David Gwilym Morris Roberts o Harlech, peiriannydd sifil disglair iawn ym Mhrydain. Rhoes wasanaeth nodedig yn y diwydiant dŵr dros y byd. Mae teyrnged iddo yn Y Times (4 Medi 2020) a gellir cael manylion ei fywyd a'i waith yn Wikipaedia.

*****************

Yn rhifyn 15 Medi eleni o'r Western Mail ceir erthygl gyda'r pennawd, *The Welsh Few who played a vital role in Battle of Britain*. Roedd y dyddiad hwnnw yn nodi 80 mlynedd ers y frwydr fawr rhwng awyrennau Prydain a'r Almaen. Mewn modd cwbl briodol mae'r erthygl yn cyfeirio at wasanaeth tri Chymro (Frederick William Higginson, John Hemingway, Harold Bird-Wilson) ac yn coffáu cyfraniadau dewr ac ymroddgar (hyd at farw) nifer fawr o griwiau bychan awyrennau. Mae'r erthygl yn cyfeirio at *'.....heroes of this epic against - the - odds victory.....'*

Heb dynnu dim oddi ar wasanaeth yr arwyr hyn, mae'n briodol nodi bod mantais fawr gan y Prydeinwyr , sef, bod setiau radar YN eu hawyrennau; nid felly awyrennau'r Almaenwyr. Yn brif arloeswr wrth sicrhau'r fantais hon oedd Edward George Bowen o Abertawe. Daeth yn enwog yn rhyngwladol fel Tad Radar ar Adain (Father of Airborne Radar). Yn Abertawe ar dŷ ei fagwraeth mae dau blac yn ei goffáu. Dadorchuddiwyd yr ail ym mis Medi 2015; cefais y fraint o gyflwyno anerchiad yn y seremoni.

Neville Evans

## Capel y Tabernacl Cyf.

# Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.
Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk/ 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk/ 01443 225205

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
01443 407570
www.menteriaith.cymru

## Hysbyseb

## Swyddog Datblygu Digidol

TROSOLWG
Mae'n gyfnod heriol ac mae Menter Iaith RhCT yn ymateb i'r heriau hynny mewn ffyrdd creadigol. Rydym yn chwilio am aelod newydd i'n tîm i ddatblygu ein cynigion a'n cyswllt digidol.
Cyflogwr: Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Cyflog: £23,836 pro rata
Dyddiad Cau: 05/10/2020
Amser Cau: 12:00:00

LLEOLIAD
Yr Hen Lyfrgell
47 Heol Pontypridd
Porth, Rhondda Cynon Taf CF39 9PF
Ffôn: 01443685422

DISGRIFIAD SWYDD
Rydm yn chwilio am berson creadigol i weithredu'r isod:
- Cynllunio, datblygu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau digidol
- Mewnbynnu ac arwain cynlluniau newydd
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Casglu barn ac ymchwilio
- Cydweithio â phartneriaid

Nod y swydd yw i ddatblygu a gweithredu cynlluniau defnydd iaith arloesol a pherthnasol i gymunedau a phobl ifanc Rhondda Cynon Taf trwy weithio'n bartneriaethol ac yn greadigol gan sicrhau bod trigolion y Sir yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio, ymfalchio a pherchnogi'r iaith Gymraeg.

## Tarian Cymru

Cefnogwch yr ymgyrch codi arian i gefnogi gwaith Tearfund yn Yemen

https://www.justgiving.com/fundraising/niywybydyemen

## Ysgol Tonyrefail

**Croesawu'n ôl i'r Ysgol**
Wedi dau ddiwrnod o dreialu systemau newydd, braf iawn oedd gallu croesawu ein holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ar Fedi 7fed gan gynnwys ein Dosbarth Meithrin newydd. Rhaid canmol y staff am eu gwaith paratoi trylwyr a'r plant a'u rhieni am gadw at y rheolau.

**Llwyddiant Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Bl6 (bellach) ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth 'Prosiect Bylbiau Gwanwyn i Ysgolion' o dan ofalaeth Amgueddfa Cymru. Llwyddodd y disgyblion i ddod yn gyntaf trwy Gymru am eu gwaith ar y prosiect Gwyddonydd Gwych 2020.



**Diwrnod Owain Glyndŵr**
Ar Fedi 16eg cafwyd diwrnod o weithgareddau amrywiol yn yr ysgol i ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu mwy am yr arwr cenedlaethol.



Blwyddyn 3 a 4



Blwyddyn 4 a 5

**Her Hapusrwydd**
Diolch i ddosbarthiadau Bl 2 a 6 am addurno'r ysgol gyda'u calonnau lliwgar - rhan o Her Hapusrwydd yr ysgol.



Blwyddyn 6 yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr



Her Hapusrwydd



Calonnau Lliwgar Blwyddyn 2

*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

**Ewyllysiau Cymraeg gan**

**Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

( Aelod o Gymdeithas

Ysgrifenwyr Ewyllysiau)


# Atgyfodi'r Wennol

Beth wnaethoch chi yn ystod y cyfnod clo? Dyna fydd ein gor-wyrion yn gofyn i ni yn y dyfodol pell. Dw i'n darllen yn y papurau bod rhai wedi sefydlu gwefannau newydd a chreu busnesau i werthu pethau maen nhw'n cynhyrchu yn y tŷ. Rhai wedi penderfynu dysgu iaith newydd, llawer wedi dewis Cymraeg i ddysgu. Diolch a phob lwc iddyn nhw. Eraill yn ail afael ar y grefft o goginio neu gerdded mwy, o fewn y rheolau wrth gwrs.

Beth oeddech chi wedi gwneud?

Y peth cyntaf wnes i oedd archebu llyfrau, tua hanner dwsin. Llawer digon i fy nghadw i fynd dros y tair wythnos roedd y cyfnod yn mynd i barhau. Yr unig beth allaf fi ddweud yw roedd y tair wythnos yna braidd yn hir! Er dw i wrth fy modd yn darllen ni allaf eistedd mewn cadair a darllen am fwy nag awr a hanner heb ddechrau pendwmpian. Beth arall allwn i wneud? Yn raddol ddoth y syniad i fy mhen o atgyfodi cylchlythyr i ddysgwyr roeddwn i wedi sefydlu tuag ugain mlynedd yn ôl.

Yn fy siwrne hir yn ôl at yr Iaith es i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol yng Nghanolfan Iaith Gregynog. Roedd y profiad yn bwysig iawn, ces i'r cyfle i siarad Cymraeg yn rheolaidd ac yn y pendraw ces i'r cyfle i fod yn diwtor. Sylweddolais fod addysgu yn ffordd effeithiol iawn er mwyn dysgu.



Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 6 | Yn rhad ac am ddim | Medi 2020

Tipyn o Wiwer

Dw i'n hoffi garddio ac i mi pwrpas garddio yw cael bwyd ar y bwrdd. Roedd Dad wrth ei fodd yn tyfu llysiau a ffrwyth meddal ac yn cadw ein teulu mawr mewn bwyd trwy'r flwyddyn. Hyd yn oed ar ôl i ni'r plant symud allan i'r byd mawr ddrwg wnaeth o ddim torri nôl ar faint oedd yn tyfu. Pob tro oeddem yn ymweld â nhw roedd rhaid derbyn llwyth o lysiau i fynd yn ôl â ni. Un gwanwyn pan oedd o tua 96 oed wnaeth o gyfaddef i mi nad oedd yn meddwl y bydda fo'n gallu gwneud y garddio bellach. Dyna pryd nes i benderfynu gwneud y gwaith trwm iddo. Roedd Mam yn dweud wrthon ni ei fod yn crwydro i fyny'r ardd llawer gwaith mewn diwrnod i weld sut roedd pethau'n tyfu. Roedd Mam yn dda iawn yn y gegin ac yn gwneud yn siŵr bod digon yn y rhewgell i barhau dros y gaeaf.

Mae crymbl yn ddigon hawdd i'w wneud, er does gen i ddim ofn gwneud pethau mwy cymhleth, ac yn ffodus iawn ges i gnwd da o wsberis yn y gwanwyn. A beth ydw i wedi bod yn gwneud dros yr wythnosau diwethaf? Hel mwyar duon! Erbyn hyn mae gen i dros ddeg kilo yn oer ac yn ddiogel yn y rhewgell.

Mae'n rhaid i mi ddweud mae hel mwyar duon wedi datblygu i fod yn aflonyddwch i mi, bysech yn meddwl bod deg kilo yn ddigon, ond mae gymaint ar ôl! A dach chi'n gwybod beth? Maen nhw'n crwydro i mewn i fy mreuddwydion. Dw i'n gwneud nodyn o faint dw i'n casglu pob tro a diddorol iawn yw gweld faint mwy sydd ar gael wrth i'r dyddiau mynd heibio. Mi fydd wythnosau o gasglu i ddod ond dw i'n agos iawn at gael digon i gadw fi i fynd am y flwyddyn nesaf.

Yn ystod fy nghyfnod ar y cwrs roedd Gregynog yn cael warden newydd, un di-gymraeg ac roedd pobl yn poeni am ddyfodol y Ganolfan Iaith. Mi wnaeth rhai ohonom ni sefydlu Cyfeillion Canolfan Iaith Gregynog a chan fod gen i fusnes argraffu ar y pryd nes i sefydlu cylchlythyr o'r enw Y Wennol. Gan roeddwn i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol roedd llawer o bobl i gyfrannu ac roedd tiwtoriaid yn anfon gwaith eu dysgwyr ataf fi. Aeth Y Wennol ymlaen am ychydig o flynyddoedd tan i mi symud i fyw yn Abertawe er mwyn bod yn agosach at fy rhieni. Efo'r dechnoleg wedi symud ymlaen roeddwn i'n teimlo'n ffyddiog roeddwn i'n gallu atgyfodi'r Wennol.

Ychydig o fisoedd ynghynt roeddwn i wedi cyfarfod â grŵp o ddysgwyr a oedd yn cyfarfod yng Nghaffi'r Three Cliffs yn wythnosol. Gofynnais iddyn nhw a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau a ches i ddigon i gael y rhifyn cyntaf allan erbyn diwedd y mis. Erbyn hyn mae chwe rhifyn wedi gweld golau dydd ac mae pedwar o ddysgwyr yn cyfrannu'n gyson. Mae'r profiad o ysgrifennu yn un werthfawr iawn i ddysgwyr, mae'r ffaith bod nhw'n treulio amser i roi eu meddyliau at ei gilydd i ysgrifennu yn datblygu ei sgiliau siarad hefyd. Mae hynny yn rhoi hyder iddyn nhw a lleihau'r pwysau arnyn nhw pan maen nhw'n sgwrsio.

Mae'r profiad o roi'r cylchlythyr at ei gilydd pob mis wedi fy atgoffa fi o'r safon mae dysgwyr yn gallu cyrraedd a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r iaith. Dw i'n ail fyw'r pleser roeddwn i'n cael wrth weithio ar Y Wennol wreiddiol.

Felly Cymry Cymraeg neu ddysgwyr mae'n werth darllen Y Wennol, byddwch yn gweld yn syth pa mor dalentog mae dysgwyr yn gallu fod. Mae croeso mawr i unrhyw gyfraniad o unrhyw lefel o ddysgu, ac mi fydda i'n hapus i ddanfon copi i unrhyw un sydd yn cysylltu â fi ar bobwennol@ntlworld.com

Gwnewch hynny rŵan, cyn i chi anghofio!

Pob hwyl
Rob Evans

# Cip a Mellten am ddim




Mae'r Urdd wedi cyhoeddi fod Cip a Mellten wedi uno i greu cylchgrawn arbennig i blant. Am y flwyddyn nesaf bydd y cylchgrawn ar gael yn ddigidol am ddim bob deufis. Y cwbl sydd angen gwneud yw cofrestru ar wefan https://www.urdd.cymru/cy/cylchgronau/cip/

# Bragdy Twt Lol

Mae wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i Bragdy Twt Lol ar Ystad Trefforest. Roedd llifogydd mis Chwefror wedi distrywio'r holl waith o ddatblygu'r bragdy ac yna daeth y cloi lawr i effeithio ar y gwerthiant. Ond mae Philip Thomas a'i dîm dal yn gweithio i ail-sefydlu'r bragdy ac yn diolch i'r llu o gefnogwyr a ddaeth i roi cymorth. Dyma rhan o'i adroddiad -

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ein cefnogi. Mae eleni wedi bod yn her i ddweud y lleiaf. Mae Phil, y perchennog wedi bod wrthi di stop, yn ogystal â thrio rhannu'r cyfrifoldebau o edrych ar ôl dau blentyn ifanc bant o'r ysgol! Ers diwedd mis Mawrth mae'r bragdy wedi bod yn gweithredu ac yn ail adeiladu. Hyd yn hyn mae wedi costio'r busnes dros £30,000 rhwng y gwaith o drwsio popeth a'r golled mewn gwerthiant. Rydym wedi bod yn ffodus iawn fod yr yswiriant wedi talu am gryn dipyn o'r costau, ond wrth gwrs nid popeth yn llawn. Y pryder am y dyfodol yw cael yswiriant am lifogydd.

Oherwydd mai dim ond dau epleswr sydd gennym, mae wedi cymryd sbel fawr i gael ein stoc lefelau lan - nawr mae gennym 5 gwahanol can mewn stoc a 2 wahanol botel, gyda mwy o boteli ar y ffordd. Rydym hefyd yn gwerthu cwrw o tap y bragdy i gymryd i ffwrdd yn ogystal â chwrw a seidr o fragdai eraill, er mwyn gwneud yn siŵr fod digon o gwrw ar gael!

Rydym wedi bod yn ffodus i gael gafael ar ddau epleswr arall er mwyn bragu mwy o gwrw ac adeiladu ein lefelau stoc lan am Nadolig.

Mae'n nwyddau - Crysau T, Hwdîs ac ati wedi'i archebu, a bydd mwy i ddod gobeithio cyn y Nadolig. Yr her fwyaf oedd ffeindio'r amser i gael popeth nôl i'w le ac yn siŵr mi fydd yn parhau am weddill 2020.


I'r dyfodol ac ymlaen i 2021 (gweddol sych gobeithio!)

Bragdy Twt Lol



# Dyn Papur Newydd

“Os byddai teulu mewn galar eisteddent ar hyd yr oedfa yn rhes ddu ddifywyd a phlygu eu pennau ar y silff fechan a ddaliai’r llyfrau canu. Fel rheol deuent i mewn yn gynnar. Ac ni châi neb weld eu hwynebau nes clywed Amen olaf y gweinidog. Dyna’r arfer am rai Suliau ar ôl yr angladd. Yna, am nifer o Suliau wedyn, eisteddent â’u hwynebau yn weladwy fel pobl eraill, ond ni chodent i ganu. Am gyfnod ar ôl hynny codent pan fyddai’r gynulleidfa yn canu, ond ni chanent hwy. Ymhen blwyddyn wedi’r angladd canent fel pawb arall. Yr oedd dangos parch i’r marw yn ddefod fanwl na feiddiai neb ei hesgeuluso.”





Disgrifiad o arferion capelwyr ar ôl profedigaeth yn ardal Capel Iwan, Sir Gâr diwedd yr 19 ganrif. Mae’n dod o gyfrol arbennig dwi ar hanner ei darllen - ‘Atgofion Dyn Papur Newydd’ gan Picton Davies. Pawb a’i fys lle bo’i ddolur ydi hi beryg, ac fel hen newyddiadurwr fy hun does ryfedd i mi gael fy nenu i’w darllen. Ond a deud y gwir ei hail ddarllen ydw i'r dyddiau yma. A’r hyn a’m sbardunodd i wneud hynny oedd pori drwy gyfrol newydd am y chwip o sgwennwr hwnnw Caradog Prichard.

Mi ges fodd i fyw yn darllen ‘Trysorau Coll Caradog Prichard’ cyfrol nodedig arall gan J Elwyn Hughes am awdur nofel fwyaf athrylithgar y Gymru Gymraeg ‘Un Nos Ola Leuad.’ Yn ogystal â bod yn awdur a bardd wnaeth ennill y goron genedlaethol deirgwaith yn olynol, roedd Caradog Prichard yn newyddiadurwr o fri fu’n gweithio ar bapurau Cymraeg fel Y Faner a’r Herald ond a dreuliodd y rhan fwya o’i oes yn Stryd Fflyd efo’r Daily Telegraph.

Cynnwys y drydedd gyfrol yma am Caradog gan Elwyn Hughes ydi papura a llythyra newydd ddaeth i’r fei gan ferch Caradog Prichard, Mari. Yn eu mysg mae dyddiaduron ei thad, llythyrau caru a gohebiaeth gan rai o enwogion y byd llenyddol a newyddiadurol, yn eu plith John Eilian, W.J. Gruffydd, Williams Parry, Cynan, Prosser Rhys, Kate Roberts a’i gŵr Morris T Williams a Thomas Parry. Yn ddi-os y deunydd mwyaf dirdynnol yn y gyfrol ydi llythyrau gan ei fam o seilam Dinbych ac mewn sawl gohebiaeth arall mae’n dod yn fwy fwy clir mai enaid clwyfus oedd yn byw ar ymyl y dibyn oedd Caradog ei hunan.

Ond beth am Picton Davies? Pwy oedd o? Mab fferm o sir Gâr oedd Owen Picton Davies. Yn 1898 ymunodd â staff y *Journal* yng Nghaerfyrddin i ddysgu'r grefft o newyddiadura. Treuliodd 54 mlynedd wedyn yn ohebydd a golygydd yng Nghaerfyrddin, y Rhondda, Caerdydd a Chaernarfon. Roedd o hefyd yn dad yng nghyfraith i’r ‘Brenhinbren,’ cawr y byd ysgolheigion Cymraeg - Thomas Parry.

Tan i mi ddarllen ‘Trysorau Coll’ wyddwn i ddim cymaint o lawiau oedd Caradog Prichard â Thomas Parry. Y fo oedd gwas priodas Caradog a Mattie ac mae’r ohebiaeth a’r tynnu coes rhwng y ddau gyda’r pethau mwya difyr yn y llyfr. Darllen yr adran honno, yn ogystal â theyrnged gan Caradog ei hun, wnaeth fy ngyrru wedyn i ail-gydio yn ‘Atgofion Dyn Papur Newydd’ Picton Davies.




Cyhoeddwyd y gyfrol yn 1962 pan oedd yr awdur yn bedwar ugain oed. Mae’n drysor o lyfr sy’n disgrifio nid yn unig ei yrfa newyddiadurol ond holl ffordd o fyw amaethyddol rhywun a godwyd mewn cwm anghysbell.

Fel hyn y mae Caradog Prichard yn disgrifio Owen Picton Davies - “... un o’r newyddiadurwyr Cymraeg mwyaf crefftus a fagodd Cymru erioed. Yr oedd hefyd o’r addfwyn yr addfwynaf ac o’r gwylaidd y gwyleiddiaf. At hyn yr oedd yn gwmnïwr llon, yn siaradwr diddorol ac yn wrandäwr astud ac amyneddgar. Un o’r rheini fydd yn gwneud i chi deimlo’n fwy o ddyn nag ydych mewn gwirionedd ar ôl bod yn ei gwmni..”

Cyfrol arall y bydd raid ail ymweld â hi yn fuan ydi – ‘Good Times Bad Times,’ hunangofiant newyddiadurwr mawr arall o dras Cymreig – Harold Evans sydd newydd farw yn 92 oed. Roedd o’n un o wir gewri diweddar y byd newyddiadurol. Cymry oedd ei fam a’i dad ond yn Eccles ger Manceinion y cafodd o ei fagu ac yn ddi-os y fo oedd un o’r golygyddion papur newydd gorau a fu. Bydd yn cael ei gofio yn bennaf am ei newyddiaduraeth ymchwiliadol dewr yn arbennig wrth ddatgelu hanes sgandal ‘thalidomide’ pan oedd yn olygydd y Sunday Times yn y 70au.

Eifion Glyn

## YDYCH CHI’N DDIGON DEWR I EISTEDD YN Y GADAIR DDU WRTH I MASTERMIND CYMRU DDYCHWELYD I S4C?

Mae S4C yn dod â fersiwn Gymraeg o un o gyfresi cwis mwyaf eiconig ac adnabyddus y byd yn ôl i gartrefi Cymru, ac mae’r cynhyrchydd, BBC Studios, yn chwilio am gystadleuwyr i roi cynnig arni i fod yn bencampwr Mastermind Cymru.

Mae’r ddarlledwraig a’r newyddiadurwraig Betsan Powys yn dychwelyd fel cyflwynydd a’r un fydd yn holi llu o gwestiynau i’r cystadleuwyr o’r gadair ddu enwog – cwestiynau gwybodaeth gyffredinol a phynciau arbenigol.

Os hoffech gystadlu, gwnewch gais drwy gysylltu â’r tîm cynhyrchu mastermind.cymru@bbc.co.uk
Y dyddiad cau yw hanner nos ar y 4ydd o Hydref 2020.

# Ysgol Garth Olwg

**Llwyddiant yng nghanlyniadau'r haf**

Braf iawn oedd croesawu nôl disgyblion Ysgol Uchaf Garth Olwg eleni. Ar ran yr ysgol, hoffwn ddiolch i ddisgyblion yr Ysgol Uchaf llynedd am eu hymroddiad a'u hagwedd cadarnhaol trwy gydol y cyfnod clo. Mewn cyfnod o ansicrwydd, profodd ddisgyblion Ysgol Uchaf Garth Olwg eu gallu i wrthsefyll unrhyw heriau a chydweithio'n effeithiol.

Amlygwyd gwaith caled y disgyblion gyda llwyddiant Blwyddyn 11 yn eu harholiadau allanol eleni. Er na safwyd yr arholiadau fel yr arfer eleni, mae gwaith a dycnwch y flwyddyn wedi cael eu hamlygu gyda nifer o ddisgyblion yn disgleirio. Er bod clod mawr i'r flwyddyn gyfan, rhaid canmol unigolion penodol ar eu canlyniadau. Llwyddodd Annwylun Pike i dderbyn A* ar draws pob pwnc; William Harris 10 A* a 3A; Harrison Evans 8A*a 5A a Harry Crook 6A* 7A.

Hoffwn ganmol pob un disgybl ar eu gwaith a'u hymroddiad cadarnhaol sy'n glod i'r Ysgol.
Mrs Adsett, Pennaeth yr Ysgol Uchaf

Hoffwn longyfarch holl fyfyrwyr Blwyddyn 13 am eu llwyddiant ysgubol yn eu canlyniadau safon uwch eleni. Mae dycnwch a dyfeisgarwch y flwyddyn wedi bod yn amlwg i ni gyd wrth weithredu drwy'r cyfnod heriol hwn. Pleser oedd gweld ffrwyth eu hymdrechion yn datblygu mewn i ganlyniadau cwbl haeddiannol.

Pennaeth Ysgol Hŷn balch iawn ydwyf wrth gyhoeddi bod cymaint o fyfyrwyr wedi llwyddo i ennill lle yn eu dewis cyntaf o brifysgolion. Ar ôl dioddef gwasgedd yr algorithm llywodraethol, dyddiau o wenu a ddaeth! Byddwn yn sicr o golli presenoldeb doniol, digri a difyr y flwyddyn. Pob lwc i chi ym mhle bynnag y mae eich taith yn mynd. Diolch am fod yn rhan o Ysgol Garth Olwg.

Er y byddwn yn hoffi enwi pawb am eu llwyddiannau, rhaid canmol Osian Evans am lwyddo i gael 1 A* a 3 gradd A; Shauna Langford-Hopkins am gael A*, A a 2 B, a Dylan Jones am lwyddo i gael cymhwyster Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwyddoniaeth Amgylcheddol.

Diolch i chi gyd am adael i ni rannu'r cyfnod cyffrous yma o'ch bywydau.
Mr Llyr Evans, Pennaeth yr Ysgol Hŷn

**Global Social Leaders Catalyst**

Cwrs sydd yn ceisio meithrin arweinwyr ifanc a'u hannog i weithredu yn y gymdeithas a datblygu ymwybyddiaeth cymdeithasol ydy 'Global Social Leaders Catalyst'. Eleni cynhaliwyd y cwrs am ddim i bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, ar lein trwy gyfrwng zoom. Yn ystod ail wythnos mis Awst cefais gyfle i fynychu amrywiaeth o gyflwyniadau a gweithdai. Dau gwestiwn oedd yn codi yn aml yn y gweithdai oedd 'Beth sy'n gwneud arweinydd da?' a 'Sut gall pobl ifanc weithredu er mwyn gwella'r gymdeithas?'



Am dair awr bob bore byddem yn cwrdd ac yn clywed gan arweinwyr cwmniau, aelodau o'r BBC ac ymgyrchwyr elusennol nodedig; fy hoff siaradwr oedd Amrit Kaur oedd yn trafod pwysigrwydd caneuon protest. Dysgais amryw o sgiliau newydd, gan gynnwys pwysigrwydd cyfathrebu clir wrth ymgyrchu a sut y gall pobl ifanc weithredu er mwyn gwireddu 20 Nod Datblygiad Cynaliadwy Byd-Eang y Cenhedloedd Unedig. Y pwyslais bob tro oedd ein hannog ni fel pobl ifanc i gynllunio a gweithredu yn ein hardal leol er mwyn gwella bywydau pobl yn y gymdeithas. Mwynheais y cwrs, a dysgais lawer o sgiliau gwerthfawr a defnyddiol y gallaf ddefnyddio yn fy mywyd pob dydd. Gan Catrin England, Blwyddyn 10.

**Ysgolion Haf**



Ym mis Chwefror, ces i fy newis i astudio seicoleg yng nghwrs haf Harvard a feiroleg yng nghwrs haf Chicago. Yn anffodus, o ganlyniad i'r feirws, doeddwn i ddim yn gallu teithio i'r Unol Daleithiau am fis i gyflawni fy astudiaethau. Yn lle, fe wnes i gyflawni'r cwrs dros zoom yn fy ystafell wely. Er, wrth gwrs, byddwn i wedi hoffi mynd i'r Unol Daleithiau i astudio, fe wnes i dal cael profiad arbennig. Cwrddais â phobl o bedwar ban y byd a dysgais nifer o sgiliau bydd yn fy helpu yn y dyfodol. Rydw i dal mewn cysylltiad â nifer dros gyfryngau cymdeithasol a gobeithio bydda i'n cael y cyfle i gwrdd â nhw mewn person rhyw ddydd. Mwynheais yr awyrgylch o ddysgu yn y ddwy brifysgol. Roedd hwn yn gyfle gwych a bythgofiadwy. Rydw i'n gobeithio bod mwy o bobl ifanc o Rhondda, Cynon, Taf yn ymgeisio blwyddyn nesaf i wneud cyrsiau haf yn yr Unol Daleithiau. Gan Efan Fairclough, Blwyddyn 13.

Ymgeisiodd Brianne Jones, Blwyddyn 13 am Leoliad Ymchwil gyda Sefydliad Nuffield dros yr haf. Llwyddodd i gael lleoliad gydag Academi Ffotoneg Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Cydweithiodd Brianne gydag arbenigwyr yn y maes am 7 wythnos er mwyn dysgu ffotoneg ar lefel graddedigion. Gwnaeth ddysgu am yr ymchwil arloesol sy'n cael ei gynnal yn y maes meddygaeth ar hyn o bryd. Enillodd hi wobr Nuffield am ei dyfeisiad ar gyfer defnydd llinol ffilterau polaru er mwyn cynorthwyo bywyd dioddefwr Parkinson's. Roedd wedi llwyddo i greu cynorthwyydd bwyta ar ei phen ei hun er mwyn galluogi cleifion i gael mwy o annibyniaeth. Yn ogystal â hyn, ysgrifennodd bapur ymchwil wyddonol gan gyflwyno'i holl waith ymchwil i grŵp o ysgolheigion a chafodd ei chymeradwyo ar ei gwaith trylwyr a da. Da iawn ti Brianne!





Dros yr haf, cafodd Emily ei dewis i fynychu ysgol haf Caergrawnt er mwyn astudio'r gwyddorau ymddygiadol a seicolegol am wythnos. Fel rhan o'r ysgol haf, roedd angen iddi ddarllen erthyglau a'u trafod dros zoom gyda darlithwyr o Gaergrawnt. Yn ogystal â hyn, roedd angen iddi wylio darlithoedd gan gyflawni aseiniaid yn seiliedig ar y gwaith yr oedd wedi cyflawni. Treuliodd hi 6 awr bob dydd yn cyflawni gwaith israddedig gan gael blas a phrofiad o astudio'r gwyddorau ymddygiadol a seicolegol ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn dilyn yr Ysgol haf mae wedi cael ei hysbrydoli i ymgeisio am gwrs tebyg yn y brifysgol ar ôl gadael y chweched gan fod y cwrs yn amrywiol ac yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth ddiddorol.

**Llwyddiant pêl-droed i Eliza**

Llongyfarchiadau i Eliza Collie, Blwyddyn 11 sydd wedi cael ei dewis i chwarae dros dîm pêl-droed cyntaf menywod Caerdydd fel ymosodwraig. Mae'n ymarfer yn galed gyda nhw ar nosweithiau Mercher a Gwener. Yng ngêm gyntaf cyfeillgar y tymor llwyddodd y tîm i guro Glan y Fferi 4-0. Mae'r tymor yn dechrau ddiwedd mis Medi ac mae Eliza yn gyffrous iawn i chwarae dros y tîm eleni.



## Ysgol Llanhari



Ar ddiwedd Tymor yr Haf dewiswyd Owen Johnston ac Erin James yn brif ddisgyblion Ysgol Llanhari am eleni, gyda Marged Jones a Mali Lloyd yn ddirprwyon iddynt. Rydym yn falch iawn ohonynt ac mae'r pedwar eisioes wedi gwneud cyfraniad pwysig wrth inni drafod materion pwysig traws ysgol ar ddechrau'r tymor anarferol hwn. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio â nhw yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 ar ennill canlyniadau TGAU a Safon Uwch cwbl haeddiannol eleni. Ynghanol helbulon canlyniadau mis Awst, braf nodi i holl ddisgyblion blwyddyn 13 Llanhari lwyddo i ennill lle yn y brifysgol. Cafwyd perfformiadau ardderchog gan nifer fawr o ddisgyblion bl11 a 12 hefyd ac rydym yn falch iawn i'w croesawu nôl i'r ysgol i'r chweched dosbarth.



Braf iawn oedd croesawu'r holl ddisgyblion 'nôl i Lanhari ar ddechrau mis Medi. Er gwaethaf yr her enfawr o addasu ein trefniadau er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion a staff yn hollol ddiogel rhag bygythiad y feirws, mae

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Hyfryd oedd cael agor ein drysau i holl ddisgyblion yr ysgol ym mis Medi, ac i'r plant fod yn ôl gyda'u ffrindiau i gyd am y tro cyntaf ers mis Mawrth. Mae trefniadau dechrau a diwedd y dydd yn wahanol i'r arfer ond diolch yn fawr i'r plant a'r rhieni am ddilyn y drefn newydd er mwyn sicrhau diogelwch pawb.

Croeso mawr i'r disgyblion newydd yn y Dosbarth Meithrin sydd wedi ymgartrefu'n barod gyda Mrs Hurst a Miss Powell. Croeso hefyd i Mr Christian Cox sydd wedi ymuno â'r staff fel gofalwr yr ysgol.

Byddwn hefyd yn ffarwelio â Miss Amy Wride ar ddiwedd y mis. Mae Amy wedi bod yn gweithio gyda ni fel cynorthwyydd ac wedi bod yn cynnal ymyraethau Iaith ac ELSA ar draws yr ysgol. Mi fydd hi'n dechrau cwrs TAR ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd er mwyn hyfforddi i fod yn athrawes gynradd. Dymunwn bob hwyl iddi wrth ddechrau pennod newydd yn ei gyrfa.



wedi bod yn bleser ailgydio yn y gwersi a threulio amser yng nghwmni y disgyblion. Mae ymateb y disgyblion a staff i'r holl reoliadau wedi bod yn wych ac rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am gyd-weithrediad parod y rhieni. Rydym yn gyson yn addasu! Mae'r athrawon yn datblygu sgiliau newydd bob dydd wrth ddatblygu'u harferion dysgu digidol ac wedi cynnig rhai gwersi byw lle bo hynny'n briodol ac ymarferol i ddisgyblion yn yr adran uwchradd sy'n gorfod hunan ynysu.



## Ysgol Pont-Sion-Norton

**Pob lwc!**
Hwyl fawr i Faye Leyshon a phob dymuniad da yn y brifysgol.

Pob dymuniad da i Kate Morgan ar ei chyfnod mamolaeth. Rydym yn edrych ymlaen at glywed y newyddion!

**Croeso!**
Croeso cynnes i Jasmine Pugh, Nerys Macdonald a Caitlin Booker. Gobeithio eich bod wedi setlo i mewn yn barod!

Croeso i'r 35 o ddisgyblion newydd Meithrin!




## Clwb Cwtsh

**Ydych chi'n adnabod rhywun hoffai ddysgu siarad Cymraeg adref gyda'u plant?**

Mae Clwb Cwtsh yn gwrs blasu Cymraeg 8 wythnos rhad ac am ddim sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref.

Bydd y cwrs yn digwydd dros y wê, dros Teams – felly mae modd ei ddilyn o'r cartref heb orfod teithio.

I ddarganfod mwy am y sesiynau:
Edrychwch ar https://www.meithrin.cymru/clwbcwtsh/ sy'n cynnwys manylion y sesiynau.
ebostiwch: clwbcwtsh@meithrin.cymru
chwilotwch ar-lein ar Trydar neu Facebook
ffoniwch: Cathryn Jones Prif Swyddog y De - 07904964264

Am wybodaeth am ofal plant cyfrwng Cymraeg ewch i wefan meithrin.cymru. Os ydych eisiau cwrs mwy dwys, ewch i https://dysgucymraeg.cymru/clwbcwtsh


Mefus yn y Glaw
Mari Emlyn
£8.95
'Y sgwaryn o ganol y cylch ydi'r llun go iawn.'
cylchoedd
Cyfrol o straeon byrion
Sian Northey
Ffotograffau gan Iestyn Hughes
£8
CATRIN LLIAR JONES
Adar O'R UNLLIW
£9
Perl
Bet Jones
£8.99
PLETHU
RHIAN CADWALADR
£8
SIÂN LLYWELYN
Drychwll
MANON STEFFAN ROS
£8
BETHAN GWANAS
MERCH Y GWYLLT
£8.99
Eiliad ac Einioes
CASIA WILIAM
£5.95
UN YN ORMOD
PROFIADAU UNIGOLION A'U PERTHYNAS AG ALCOHOL
GOL: ANGHARAD GRIFFITHS • RHAGAIR: FFION DAFIS
£8.99
CYFANSODDIADAU EISTEDDFOD AMGEN 2020
£7
Y DYCHYMYG ÔL-FODERN
RHIANNON MARKS
£19.99
'Y MAE Y LLE YN IACH'
CHWAREL DINORWIG 1875-1900
ELIN TOMOS
£8
dwyieithog bilingual
2021
dyddiadur desg diary
www.ucac.cymru
£6.66
2021
dyddiadur A5 diary
£4.99
2021
dyddiadur poced
£4.16
2021
£5.83
2021
dyddiadur amaeth
agricultural diary
£6.66
Y Lloches
£6.99
Pawennau Mursen
Angharad Tomos
£2.95
Ceridwen
Angharad Tomos
£2.95
Corwynt!
Angharad Tomos
£2.95
MANON STEFFAN ROS
TRIO
£6.99
Y Goeden Hud
£7.95
Fy Llyfr Englynion
Mererid Hopwood
£6.95
Llyfr Lliwio Cadi
Bethan Gwanas
£4.99
Llyfrau Newydd
Ar gael o'ch siop lyfrau leol
#CaruDarllen
#LoveReading
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES